**Adroddiad i ddiweddaru Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd: Adolygu'r System Apelio

**CHWEFROR 2017**



## Cynnwys


1. Crynodeb Gweithredol ........ 3
2. Cyflwyniad ........ 5
3. Cefndir y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ........ 7
4. Gweithredu'r System Apelio ........ 10
5. Apeliadau'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Tachwedd 2015 – Tachwedd 2016 12
6. Mesurau diogelu eraill ........ 14
   - Hawl i ymateb ........ 14
   - Ceisiadau am arolygiad ailsgorio ........ 15
7. Adborth gan Fusnesau a Chanfyddiadau Gwaith Ymchwil ........ 16
8. Cysondeb ........ 19
9. Argymhellion adroddiad Chwefror 2016 ........ 21
10. Casgliadau ........ 23
11. Argymhellion ........ 24

# 1. Crynodeb Gweithredol

1.1 Ym mis Tachwedd 2013, sefydlodd Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) ("y Ddeddf") Gynllun Sgorio Hylendid Bwyd ("y Cynllun") statudol. Ymysg gofynion eraill, roedd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau arddangos sgoriau hylendid bwyd ac yn ei gwneud yn orfodol i awdurdodau lleol gymryd rhan yn y Cynllun.

1.2 Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi dyletswydd ar yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) i:

- Adolygu'r modd y caiff y Cynllu ei weithredu yng Nghymru, a hynny blwyddyn ar ôl ei gyflwyno, a phob tair blynedd wedi hynny.
- Adolygu'r system apelio bob blwyddyn.

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at y ddyletswydd i adolygu'r modd y caiff y system apelio ei gweithredu bob blwyddyn, ac mae wedi'i lunio yn dilyn adolygiad o'r cyfnod 28 Tachwedd 2015 i 27 Tachwedd 2016.

1.4 Dangosodd yr adolygiad:

- bod 108 (1.9%) o fusnesau yng Nghymru gyda sgôr hylendid bwyd rhwng '0' a '4' wedi mynd ati i apelio;
- O'r 108 o apeliadau a gyflwynwyd, fe arweiniodd 19 (17.6%) ohonynt at newidiadau mewn sgoriau hylendid bwyd yn dilyn ystyriaeth gan awdurdodau lleol;
- Pennwyd 100 (92.6%) o'r apeliadau o fewn y cyfnod statudol o 21 diwrnod.
- Pennwyd pob apêl gan swyddogion awdurdodau lleol priodol nad oedd yn rhan o'r asesiad sgorio hylendid bwyd gwreiddiol.

1.5 Ar y cyfan, mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn unol â'r Ddeddf a'r canllawiau statudol. Fodd bynnag, ni chafodd 8 (7.4%) o'r apeliadau a ystyriwyd eu pennu gan awdurdodau lleol o fewn 21 diwrnod wedi iddynt ddod i law.

1.6 Roedd adborth gan fusnesau yn dangos bod gofyn parhaus i ddarparu gweithredwyr busnesau bwyd â gwybodaeth glir ynghylch y mesurau diogelwch sydd ar gael o dan y cynllun, gan gynnwys y broses apelio ac ar ba sail y mae modd cyflwyno apêl. Mae hyn yn hynod o berthnasol i weithredwyr busnesau bwyd nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf.

1.7 Roedd yr adborth gan fusnesau yn nodi pryderon ynghylch didueddrwydd (*impartiality*) y broses apelio. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod 17.6% o'r apeliadau a dderbyniwyd gan awdurdodau lleol yn ystod cyfnod yr adolygiad wedi arwain at newid sgoriau hylendid bwyd. Ymhellach i hyn, roedd yr

adolygiad wedi canfod bod apeliadau, yn bennaf, wedi'u hystyried yn unol â gofynion y Ddeddf.

1.8 O ganlyniad i ganfyddiadau’r adolygiad hwn, cyflwynir pedwar argymhelliad mewn perthynas â gweithredu'r Cynllun yn barhaus yng Nghymru:

*Argymhelliad 1:*

Bod y system bresennol sydd ar waith i alluogi busnesau i apelio yn erbyn eu sgoriau hylendid bwyd yng Nghymru yn parhau ac yn cael ei hadolygu mewn 12 mis, yn unol â'r Ddeddf.

*Argymhelliad 2:*

Dylai awdurdodau lleol sicrhau y caiff pob apêl ei phennu o fewn 21 diwrnod wedi iddynt ddod i law a'u bod yn rhoi gwybod i weithredwyr busnesau bwyd a'r ASB o fewn y cyfnod hwn hefyd. Lle bydd oedi wedi bod yn y broses, dylai'r ASB ganfod y rhesymau dros yr oedi ac atgoffa awdurdodau lleol o'u hymrwymiadau.

*Argymhelliad 3:*

Dylai awdurdodau lleol barhau i sicrhau bod pob swyddog sy'n sgorio busnesau bwyd o dan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n hyrwyddo cysondeb, gan gynnwys pennu apeliadau. Dylai'r ASB barhau i gefnogi awdurdodau lleol wrth gynnal y gweithgarwch hwn.

*Argymhelliad 4:*

Dylai'r ASB barhau i gydweithio ag awdurdodau lleol, busnesau bwyd a'u cynrychiolwyr er mwyn codi ymwybyddiaeth gweithredwyr busnesau bwyd o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd gan gynnwys sut y caiff sgoriau eu pennu, y broses apelio a'r hawl i ymateb. Dylid ystyried y modd y mae cyfathrebu â gweithredwyr busnesau bwyd nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf.

## 2. Cyflwyniad

2.1 Ym mis Tachwedd 2013, sefydlodd Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 ("y Ddeddf") Gynllun Sgorio Hylendid Bwyd ("y Cynllun") statudol yng Nghymru. Roedd y cynllun hwn yn adeiladu ar gynllun anstatudol a oedd eisoes ar waith gan awdurdodau lleol.

2.2. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i gymryd rhan yn y cynllun ac yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd sy'n cyflenwi bwyd i'r defnyddiwr terfynol arddangos eu sgoriau hylendid bwyd. Mae'r Cynllun hefyd yn ymrwymo gweithredwyr busnesau bwyd i ddarparu gwybodaeth am eu sgoriau hylendid bwyd ar lafar, ar gais. Ym mis Tachwedd 2014, cafodd y Cynllun ei ymestyn i gynnwys busnesau sy'n cyflenwi bwyd i fusnesau eraill, megis gweithgynhyrchwyr.

2.3 Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu gweithredwyr busnesau bwyd â mesurau diogelu i sicrhau bod y Cynllun yn deg i fusnesau. Mae'r rhain yn cynnwys yr hawl i apelio yn erbyn eu sgôr hylendid bwyd os ydynt o'r farn ei bod yn anheg; yr hawl i ymateb, a gyhoeddir ynghyd â'u sgôr hylendid bwyd ar wefan yr ASB; a'r gallu i ofyn am ymweliad ail-sgorio os ydynt wedi gwella'r safonau hylendid.

2.4 O dan y Ddeddf, mae'r cyfrifoldeb am bennu apeliadau yn perthyn i'r awdurdod lleol a ddyfarnodd y sgôr hylendid bwyd. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau sy'n galluogi person ar wahân i'r awdurdod lleol bennu apeliadau.

2.5 Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) i gynnal adolygiad o'r modd y caiff y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ei weithredu, a hynny blwyddyn ar ôl ei gyflwyno, a phob tair blynedd wedi hynny. At hynny, mae dyletswydd ar yr ASB i adolygu'r system apelio bob blwyddyn.

2.6 Cafodd adolygiad o flwyddyn gyntaf y Cynllun, a'r broses apelio, ei gwblhau ddechrau 2015, a chyhoeddwyd y canfyddiadau[1] ym mis Chwefror 2015. Cyhoeddwyd adroddiad diweddaru dilynol[2] ym mis Awst 2015.

2.7 Cafodd y modd o weithredu'r broses apelio ei adolygu dwy flynedd ar ôl i'r Cynllun ddod i rym, ac ym mis Chwefror 2016, cafodd adroddiad[3] ei gyhoeddi. Yn ôl yr adolygiad, roedd 104 o apeliadau wedi'u cyflwyno gan fusnesau bwyd yng Nghymru rhwng 28 Tachwedd 2014 a 27 Tachwedd 2015, a arweiniodd

[1] Adolygu'r broses o weithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd statudol yng Nghymru a gweithrediad y system apelio

[2] Gweithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yng Nghymru

[3] Adolygu Gweithrediad y System Apelio - Chwefror 2016

at newid 15 (14.4%) o sgoriau hylendid bwyd. Roedd yr adolygiad hefyd wedi canfod bod rhai elfennau o'r broses apelio nad oeddent yn glir i weithredwyr busnesau bwyd yng Nghymru. O ganlyniad i'r canfyddiadau, cyflwynwyd tri argymhelliad mewn perthynas â gweithredu'r broses apelio. Cyfeirir atynt yn Adran 9 yr adroddiad hwn.

2.8 Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r adolygiad o'r system apelio yn ystod y cyfnod 28 Tachwedd 2015 i 27 Tachwedd 2016.

2.9 Er mwyn llywio'r adolygad hwn, darparwyd data gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Hefyd, cafodd yr adroddiad ei lywio gan adborth oddi wrth fusnesau drwy eu cynrychiolwyr, ac oddi wrth weithredwyr busnesau bwyd unigol drwy ymchwil annibynol a gomisiynwyd gan yr ASB.

# 3. Cefndir y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

3.1 Daeth y Ddeddf i rym ar 28 Tachwedd 2013 gan sefydlu Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd statudol yng Nghymru. Nod y Cynllun yw rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr am safonau hylendid busnesau bwyd er mwyn eu galluogi i wneud dewisiadau gwybodus am ble i fwyta a phrynu bwyd. Mae'r Cynllun hefyd yn bwysig o safbwynt masnachol, gan ei fod yn annog busnesau i fodloni gofynion cydymffurfio â chyfraith bwyd, a chynnal y safon hon. Mae'n rhoi tryloywder i ddefnyddwyr am safonau hylendid mewn safleoedd bwyd adeg yr archwiliad gan swyddogion diogelwch bwyd awdurdodau lleol. Y nod yw cydnabod y busnesau hynny sy'n bodloni gofynion cyfraith hylendid bwyd, ac i ysgogi'r rheiny nad ydynt i wella.

3.2 Mae Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 yn cynnwys rhagor o fanylion am y modd y caiff y Cynllun ei weithredu. Mae'r ASB, ar y cyd â Llywodraeth Cymru a Grŵp Llywio Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cymru, wedi datblygu canllawiau[4] i gefnogi swyddogion i roi deddfwriaeth ar waith yn gyson.

3.3 Mae awdurdodau lleol yn cynnal arolygiadau hylendid bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd[5]. Caiff sgoriau eu cyfrifo gan swyddogion yn dilyn arolygiad, gan gymryd tair prif elfen i ystyriaeth:

- Lefel gydymffurfio â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd –
  pa mor hylan y mae bwyd yn cael ei drin – sut y caiff ei baratoi, ei goginio, ei ailgynhesu, ei oeri a'i storio;
- Lefel gydymffurfio â gofynion strwythurol –
  cyflwr strwythur yr adeiladau – glanweithdra, cynllun, goleuo, awyru a chyfleusterau eraill;
- Hyder mewn gweithdrefnau rheoli –
  sut mae'r busnes yn rheoli ac yn cofnodi beth mae'n ei wneud i sicrhau bod bwyd yn ddiogel.

3.4 Caiff y safonau hylendid a ganfyddir adeg yr arolygiad eu sgorio ar raddfa rhwng '0' a 5'.

- '0' – Angen gwella ar frys
- '1' – Angen gwella yn sylweddol
- '2' – Angen gwella
- '3' – Boddhaol ar y cyfan
- '4' – Da
- '5' – Da iawn


[4] Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 a Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013: Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol

[5] Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) – Ebrill 2014

3.5 Caiff sgôr hylendid bwyd pob busnes ei chyhoeddi ar wefan yr ASB[6]. Ym mis Tachwedd 2014, cafodd yr wybodaeth a gyhoeddir ei hymestyn er mwyn cynnwys crynodeb o'r tair elfen sy'n creu'r sgôr, gan roi gwybodaeth ychwanegol i ddefnyddwyr am y rhesymau dros bennu'r sgôr. O fis Tachwedd 2014, cafodd datganiad ei gynnwys ar y wefan a oedd yn rhoi gwybod i ddefnyddwyr bod modd derbyn adroddiadau arolygu oddi wrth yr awdurdod lleol a gynhaliodd yr arolygiad.

3.6 Yn sgil cyflwyno'r Cynllun yn 2013, mae nifer y busnesau â sgôr o '3' neu uwch wedi cynyddu'n gyson bob blwyddyn. Fel y dangosir yn ffigur 1, mae nifer y busnesau bwyd â sgôr o '5' hefyd wedi cynyddu o 7,469 (37%) i 17,558 (63%) ers 2011/12. Mae nifer y busnesau â sgôr o 0 wedi gostwng o 172 (0.9%) i 57 (0.2%). Mae hyn yn dangos bod y Cynllun yn gweithio drwy wella safonau hylendid bwyd.

**Ffigur 1: Sgoriau Hylendid Bwyd yng Nghymru**
**Hydref 2012 - Tachwedd 2016**




3.7 Ar 28 Tachwedd 2016, daeth Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Hyrwyddo Sgôr Hylendid Bwyd) (Cymru) 2016[7] i rym. Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol yn gyfreithiol i weithredwyr busnesau bwyd tecawê gyhoeddi datganiad dwyieithog, mewn lle amlwg ar ddeunyddiau hyrwyddo copi caled penodol, sy'n cyfeirio cwsmeriaid at wefan yr ASB. Mae'r rheoliadau hefyd yn caniatáu dangos llun o'r sgôr hylendid bwyd dilys yn wirfoddol ar y math hwn o ddeunydd cyhoeddusrwydd yn y fformat penodol. Os yw deunyddiau cyhoeddusrwydd yn dangos bwyd ar werth, y pris a dull o archebu'r bwyd heb

[6] www.food.gov.uk/sgoriau
[7] Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Hyrwyddo Sgôr Hylendid Bwyd) (Cymru) 2016

orfod ymweld â'r sefydliad, mae'n rhaid cynnwys y datganiad dwyieithog canlynol:

> *“Ewch i food.gov.uk/sgoriau i ganfod sgôr hylendid bwyd ein busnes neu gofynnwch i ni beth yw ein sgôr hylendid bwyd wrth archebu. / Go to food.gov.uk/ratings to find out the food hygiene rating of our business or ask us for our food hygiene rating when you order”.*

# 4. Gweithredu'r System Apelio

4.1 Pan gaiff gweithredwyr busnesau bwyd wybod eu sgôr hylendid bwyd, mae'n rhaid i awdurodau lleol roi gwybodaeth iddynt am y broses apelio ar yr un pryd. Mae'r ASB wedi cynhyrchu taflen wybodaeth i weithredwyr busnesau bwyd sy'n nodi'r mesurau diogelu sydd ar gael. Mae'r daflen, o'r enw 'Mesurau diogelu i fusnesau bwyd yng Nghymru'[8] yn nodi'r broses apelio gam wrth gam.

4.2 Gall busnesau apelio i'r awdurdod lleol a ddyfarnodd y sgôr ar yr amodau canlynol:

- Nad yw'r sgôr yn adlewyrchiad cywir o safonau hylendid bwyd y sefydliad adeg yr arolygiad;
- Na chafodd y meini prawf sgorio eu rhoi ar waith yn gywir wrth bennu'r sgôr hylendid bwyd.

4.3 Mae'n rhaid cyflwyno apêl o fewn 21 diwrnod i'r dyddiad y daeth y sgôr hylendid bwyd i law, ac mae'n rhaid ei chyflwyno'n ysgrifenedig ar y ffurflen benodol.

4.4 I ddechrau, caiff gweithredwr y busnes bwyd ei annog i gysylltu â'r swyddog arolygu er mwyn datrys unrhyw anghydfod neu egluro unrhyw bwyntiau yn anffurfiol. Fodd bynnag, nid oes yn rhaid i weithredwr wneud hyn, ac fe all benderfynu symud yn syth i'r cam apelio ffurfiol.

4.5 Caiff apêl ei chyflwyno i'r awdurdod lleol a ddyfarnodd y sgôr, a chaiff ei phennu gan swyddog awdurdodedig nad oedd yn rhan o asesu'r sgôr hylendid sy'n cael ei hapelio. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol bennu'r apêl a rhoi gwybod i'r busnes bwyd a'r ASB am ganlyniad yr apêl o fewn 21 diwrnod i'r dyddiad y daeth yr apêl i law. Gall y swyddog awdurdodedig ymweld â'r sefydliad er mwyn ystyried materion a godwyd mewn apêl.

4.6 Ar ôl pennu canlyniad apêl, mae'n rhaid i awdurdodau lleol anfon hysbysiad o'r sgôr hylendid at yr ASB, law yn llaw â datganiad ysgrifenedig o'r rhesymau dros unrhyw ddigwyddiadau.

4.7 Os nad yw gweithredwr y busnes bwyd yn fodlon â chanlyniad yr apêl, a/neu maent yn ystyried nad yw gwasanaeth awdurdod lleol wedi'i gynnal yn briodol, gallant ddefnyddio gweithdrefn gwyno'r awdurdod lleol. Os yw'r gweithredwr yn parhau i fod yn anfodlon, gellir cyfeirio'r mater i Ombwdsmon Gwasanaethau Lleol Cymru. Yn y pen draw, gall gweithredwr busnes bwyd gyflwyno cais am Adolygiad Barnwrol.

4.8 Ers i'r ddeddfwriaeth ddod i rym ar 28 Tachwedd 2013, cyflwynwyd 283 o apeliadau gan fusnesau bwyd. Mae'r 283 o apeliadau yn cynrychioli 2.0% o'r

[8] Esbonio mesurau diogelu i fusnesau

14,272 o sefydliadau sydd wedi cael sgôr rhwng ‘0’ a ‘4’ ers cyflwyno'r Ddeddf.

4.9 Nododd awdurdodau lleol eu bod wedi derbyn cyfanswm o 8 cwyn ffurfiol mewn perthynas â'r Cynllun yn ystod y cyfnod 28 Tachwedd 2015 i 27 Tachwedd 2016. Nid yw'n glir a yw'r cwynion hyn mewn perthynas â gweithredu'r broses apelio. Nododd rhai awdurdodau lleol hefyd eu bod wedi derbyn cwynion anffurfiol a galwadau ffôn gan weithredwyr busnesau bwyd nad oeddent yn hapus â'u sgôr neu gyda'r swyddog a oedd wedi cynnal yr arolygiad.

# 5. Apeliadau'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Tachwedd 2015 – Tachwedd 2016


5.1 Rhwng 28 Tachwedd 2015 a 27 Tachwedd 2016, cyflwynwyd 108 o apeliadau gan weithredwyr busnesau bwyd yng Nghymru.

5.2 Pennwyd canlyniadau 100 o apeliadau (92.6%) o fewn y cyfnod gofynnol o 21 diwrnod, a phenderfyniadau am y rhai a oedd yn weddill o fewn 27 diwrnod.

5.3 Cafodd pob apêl ei hystyried gan swyddog nad oedd yn rhan o'r broses o asesu'r sgôr hylendid bwyd a oedd yn cael ei hapelio.

5.4 Mewn perthynas â'r 108 o apeliadau a gyflwynwyd, arhosodd 89 (82.4%) o'r sgoriau'r un fath a chafodd 19 (17.6%) eu hadolygu. O'r 19 a adolygwyd, arweiniodd 16 (14.8% o gyfanswm yr apeliadau) at sgôr uwch a thri (2.8% o gyfanswm yr apeliadau) at sgôr is. Mae ffigur 2 yn dangos y sgoriau cyn ac ar ôl pennu canlyniadau'r apeliadau hyn.

**Ffigur 2: Newidiadau i sgoriau ar ôl pennu apeliadau**




5.5 Cyflwynwyd y rhan fwyaf o apeliadau (58) gan fusnesau bwyd a oedd wedi cael sgôr llai na '3'. Roedd y ffigur hwn yn cynnwys:

- 5 (4.6%) gyda sgôr o '0'
- 26 (24.1%) gyda sgôr o '1'
- 27 (25.0%) gyda sgôr o '2'


5.6 Mewn perthynas â'r 50 o apeliadau a oedd yn weddill:

- daeth 27 o apeliadau (25.0%) gan fusnesau bwyd â sgôr o '3'
- daeth 23 o apeliadau (21.3%) gan fusnesau bwyd â sgôr o '4'

5.7 Fel y dangosir yn ffigur 3, fe apeliodd 2.6% o weithredwyr busnesau bwyd yn y 'sector arlwyo' (2,861 o sefydliadau) a'r un ganran yn y 'sector twristiaeth' (189 o sefydliadau) oedd â sgôr rhwng ‘0’ a ‘4’; y gyfran uchaf mewn unrhyw gategori. Mae'r sectorau hyn yn cynnwys bwytai, siopau tecawê, caffis, ffreuturau ac unedau bwyd symudol ('sector arlwyo') a gwestai a thai llety ('sector twristiaeth'). Daeth y nifer fwyaf o apeliadau gan weithredwyr busnesau bwyd yn y 'sector arlwyo' gan sefydliadau 'bwyty/caffi/ffreutur' a 'siopau tecawê' (47 a 20 yn y drefn honno). Roedd cyfanswm o 1.5% o fusnesau yn y 'sector manwerthu' wedi apelio yn erbyn eu sgôr. Mae'r sector hwn yn cynnwys archfarchnadoedd, uwch-archfarchnadoedd a manwerthwyr.

5.8 Mae ffigur 3 yn dangos nifer yr apeliadau yn ôl y math o fusnes fel canran o'r sefydliadau hynny gyda sgoriau o ‘0’ i ‘4’.

**Ffigur 3: Apeliadau yn ôl y math o fusnes fel canran o'r safleoedd gyda sgôr rhwng 0 a 4**




5.9 Fe apeliodd gweithredwyr busnesau bwyd o 18 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn erbyn eu sgoriau hylendid bwyd rhwng 28 Tachwedd 2015 a 27 Tachwedd 2016.

5.10 Mae'r 108 o apeliadau yn cynrychioli 1.9% o’r 5,583 o sefydliadau a oedd â sgôr rhwng ‘0’ a '4' yng Nghymru yn ystod y cyfnod dan sylw. Nid yw’r ffigur hwn yn cymryd i ystyriaeth busnesau â sgôr hylendid bwyd o ‘5’ gan na fyddai disgwyl i’r busnesau hyn apelio yn erbyn eu sgôr.

# 6. Mesurau diogelu eraill

6.1 Yn ogystal â'r hawl i apelio yn erbyn sgôr, mae'r ddeddfwriaeth yn darparu gweithredwyr busnesau bwyd â'r hawl i ymateb a'r hawl i ofyn am arolygiad ailsgorio.

6.2 Pan fo awdurdodau lleol yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig i fusnesau am eu sgôr hylendid bwyd, mae'n rhaid iddynt hefyd gynnwys gwybodaeth am sut y mae gofyn am arolygiad ailsgorio a hawl gweithredwr y busnes bwyd i ymateb. Mae'n rhaid i'r wybodaeth hon gynnwys manylion o ran sut i gael y ffurflen i wneud cais ailsgorio, a chostau'r arolygiad; gan gynnwys sut a phryd y mae'n rhaid talu'r costau hyn. Mae'n rhaid i'r wybodaeth am yr hawl i ymateb gynnwys enw a manylion cyswllt y person y mae'n rhaid anfon y sylwadau ato, a manylion y broses o anfon y sylwadau ymlaen at yr ASB a'u cyhoeddi ar wefan yr ASB.

**Hawl i ymateb**

6.3 Diben yr hawl i ymateb yw rhoi cyfle i weithredwyr busnesau bwyd roi sylwadau ar eu sgôr, ac iddynt esbonio unrhyw gamau sydd wedi'u cymryd ers yr arolygiad. Mae'n rhoi cyfle i weithredwyr busnesau bwyd fanylu ar amgylchiadau penodol adeg yr arolygiad a allai fod wedi effeithio ar y sgôr. Nid yw'r hawl i ymateb yn gyfle i weithredwyr busnesau bwyd gwyno neu feirniadu'r Cynllun na'r swyddog arolygu.

6.4 Mae ffurflen dempled safonol ar gael er mwyn darparu sylwadau, ond nid yw’n orfodol ei defnyddio. Gall gweithredwyr busnesau bwyd gyflwyno’i sylwadau mewn fformat ysgrifenedig gwahanol, a nodi’n glir mai eu sylwadau 'hawl i ymateb' ydynt. Gall gweithredwr y busnes bwyd gyflwyno'u sylwadau ar unrhyw adeg pan fo'r sgôr yn ddilys, p'un a bod apêl wedi'i chyflwyno ai peidio. Cyhoeddir y testun ar wefan yr ASB ynghyd â'r sgôr, a bydd yn aros ar y wefan hyd nes y rhoddir sgôr newydd.

6.5 Bydd unrhyw 'hawl i ymateb' sy’n cynnwys sylwadau tramgwyddus, difenwol, amherthnasol neu sylwadau sy’n amlwg yn anghywir yn annerbyniol. Mewn achosion o’r fath, bydd gweithredwr y busnes bwyd yn cael gwybod nad yw’r testun yn bodloni’r gofynion, a bydd yn cael y cyfle i’w adolygu.

6.6 Cyflwynwyd ceisiadau 'hawl i ymateb' gan 15 o weithredwyr busnesau bwyd rhwng 28 Tachwedd 2015 a 27 Tachwedd 2016. Mae hyn yn cynrychioli 0.3% o'r 5,583 o fusnesau bwyd oedd â sgôr rhwng '0' a '4' yn ystod y cyfnod.

### Ceisiadau am arolygiad ailsgorio

6.7 Pwrpas y mesur diogelu hwn yw rhoi cyfle i weithredwyr busnesau bwyd sydd wedi rhoi'r gwelliannau gofynnol ar waith gyflwyno cais i ail-asesu safonau hylendid y sefydliad, gyda'r nod o wella eu sgôr cyn yr arolygiad nesa.

6.8 Mae'n rhaid i weithredwyr busnesau bwyd gyflwyno cais ailsgorio ysgrifenedig i'r awdurdod lleol a gynhaliodd yr arolygiad gwreiddiol, a hynny drwy lenwi ffurflen statudol. Mae'n rhaid i weithredwr y busnes bwyd esbonio'r camau maent wedi ei gymryd i fynd i'r afael â'r materion a godwyd adeg yr arolygiad blaenorol, a dylid cynnwys tystiolaeth gefnogol, e.e. derbynebau neu ffotograffau sy'n profi bod y gwaith wedi'i gwblhau.

6.9 Mae'n rhaid i weithredwr y busnes bwyd gytuno i dalu costau rhesymol yr arolygiad ailsgorio i'r awdurdod lleol. Ar hyn o bryd, y gost yw £160, sydd wedi'i phennu gan bob awdurdod lleol yng Nghymru. Hefyd, mae'n rhaid i weithredwr y busnes bwyd fodloni'r gofynion canlynol:

- Mae penderfyniad wedi'i wneud o ran unrhyw apêl yn erbyn y sgôr gyfredol;
- Mae gweithredwr y busnes bwyd wedi rhoi gwybod i'r awdurdod lleol am y gwelliannau angenrheidiol a wnaed yn y sefydliad;
- Ym marn yr awdurdod lleol, mae'n rhesymol i arolygu ac ail-asesu'r sefydliad; wrth ystyried y gwelliannau a wnaed;
- Mae sticer y sgôr bresennol wedi'i arddangos yn y sefydliad;
- Mae gweithredwr y busnes bwyd wedi cytuno i roi mynediad i'r awdurdod lleol er mwyn cynnal yr arolygiad.

6.10 Wedi i'r awdurdod lleol dderbyn cais, mae'n rhaid iddynt gynnal arolygiad ailsgorio heb ei gyhoeddi, a hynny heb fod yn hwyrach na thri mis wedi derbyn y cais. Caiff y gweithredwr busnes bwyd wybod ei sgôr hylendid bwyd newydd drwy lythyr. Gall y sgôr gynyddu, gostwng neu aros yr un peth. Yn unol â'r sgôr hylendid wreiddiol, gall gweithredwr y busnes bwyd apelio neu gyflwyno hawl i ymateb i'w gyhoeddi ar wefan yr ASB.

6.11 Cafodd awdurdodau lleol 812 o geisiadau ailsgorio rhwng 28 Tachwedd 2015 a 27 Tachwedd 2016. Mae hyn yn cynrychioli 14.5% o'r 5,583 o sefydliadau bwyd oedd â sgôr rhwng '0' a '4' yn y cyfnod.

# 7. Adborth gan Fusnesau a Chanfyddiadau Gwaith Ymchwil

7.1 Comisiynodd yr ASB waith ymchwil annibynnol i geisio safbwyntiau a phrofiadau busnesau yng Nghymru a oedd wedi apelio yn erbyn eu sgoriau yn ystod cyfnod yr adolygiad, sef 28 Tachwedd 2015 i 27 Tachwedd 2016. Cafwyd ymateb gan 23 o fusnesau, sy'n cynrychioli 21.3% o'r holl fusnesau a oedd wedi apelio. Yn ogystal, gofynwyd am safbwyntiau cynrychiolwyr busnesau o Grŵp Llywio Sgorio Hylendid Bwyd y Deyrnas Unedig[9] er mwyn casglu adborth gan eu haelodau yng Nghymru. Cafwyd ymatebion gan Gymdeithas Lletygarwch Prydain a Chonsortiwm Manwerthwyr Prydain.

7.2 Cysylltwyd â gweithredwyr busnesau bwyd dros y ffôn, a'u gwahodd i ddarparu adborth di-enw mewn perthynas â'r meysydd a ganlyn:

- Pa mor hawdd oedd canfod yr wybodaeth ofynnol er mwyn apelio;
- Eu profiadau o apelio yn erbyn sgôr hylendid bwyd, gan gynnwys y broses, yr amserlen a'u teimladau am y modd yr aethpwyd i'r afael â'r apêl;
- Eu barn ar p'un a oeddent yn ystyried y canlyniad i fod yn deg;
- Eu rhesymau dros apelio;
- Lefelau bodlonrwydd â'r broses.

7.3 Nododd yr holl ymatebwyr eu bod wedi derbyn llythyr gyda sticer yn dilyn arolygiad. Fodd bynnag, nododd Consortiwm Manwerthwyr Prydain nad oedd copïau o adroddiadau arolygu yn cael eu hanfon i brif swyddfeydd eu haelodau pob tro. Hefyd, nododd y Consortiwm fod canfod gwybodaeth am sut i apelio yn gallu bod yn anodd a'i bod yn cymryd llawer o amser.

7.4 Mae canfyddiadau cychwynnol yr ymchwil yn dangos bod gweithredwyr busnesau bwyd yn ymwybodol o'u hawl i apelio a'u hawl i ofyn am arolygiad ailsgorio. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oedd ymatebwyr yn deall ar ba sail yr oedd modd apelio, ac roedd dryswch yn aml ynghylch yr apêl a'r cais ailsgorio. Roedd yr hawl i ymateb yn llai cyfarwydd i ymatebwyr, gyda'r lleiafrif ohonynt yn unig yn deall y term. Nododd rhai gweithredwyr busnesau bwyd nad oeddent yn deall y rhesymau dros eu sgôr gychwynnol a/neu'r meini prawf a ddefnyddiwyd i'w hasesu. At hynny, nododd rhai nad oeddent yn teimlo'n ddigon hyderus i apelio.

7.5 Cysylltodd nifer o ymatebwyr â'u hawdurdod lleol i gael gwybodaeth am sut i apelio yn erbyn eu sgoriau hylendid bwyd. Roedd y rheiny a gysylltodd â'r awdurdod lleol, neu oedd â phrofiad blaenorol o apelio, yn teimlo bod y broses a'r cyfathrebu yn syml. Fodd bynnag, nododd oddeutu traean ohonynt

[9] Grŵp Llywio Sgoriau Hylendid Bwyd y DU

anawsterau wrth apelio. Roedd y rhain yn cynnwys canfod y ffurflen apelio ar-lein a'r cyfeiriad i'w dychwelyd ato, ac anhawster yn cysylltu â'r person priodol yn eu hawdurdod lleol. Roedd Consortiwm Manwerthwyr Prydain hefyd wedi nodi bod rhai o'u haelodau wedi profi rhai o'r un problemau.

7.6 Nododd rhai ymatebwyr nad oedd yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf anawsterau hefyd. Awgrymwyd y gallai deunydd cyfathrebu mewn ieithoedd ar wahân i Saesneg wella dealltwriaeth gweithredwyr busnesau bwyd o'r mesurau diogelu sydd ar gael.

7.7 Derbyniwyd nifer o sylwadau negyddol am y ffurflen apelio. Credai rhai bod y gofod cyfyng ar y ffurflen yn effeithio ar yr asesiad o'u hapêl. Dylid nodi nad yw'n ofynnol cyflwyno copi caled o'r ffurflen apelio, a bod modd cyflwyno rhagor o wybodaeth drwy ddefnyddio'r ffurflen electroneg. Mae adborth gan weithredwyr busnesau bwyd yn awgrymu y dylid esbonio manteision llenwi'r ffurflen ar-lein yn well. Roedd ymatebwyr eraill yn teimlo ei bod yn ofynnol i ddefnyddio 'iaith dechnegol' wrth gyflwyno'u hachos er mwyn cydfynd ag iaith yr arolygydd. Roedd hyn yn creu anawsterau iddynt. Mae adborth gan Gymdeithas Lletygarwch Prydain hefyd yn awgrymu bod rhai o'u haelodau o'r un farn mewn perthynas â'r mater hwn. Roedd traean o weithredwyr busnesau bwyd hefyd yn teimlo nad oedd yr wybodaeth am ganlyniad eu hapêl yn glir, neu fod yr wybodaeth ysgrifenedig yn rhy gyffredinol.

7.8 Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn teimlo bod y broses apelio yn "gyflym" a dywedodd y rhan fwyaf bod penderfyniad eu hapêl wedi dod i law o fewn "cwpl o wythnosau". Roedd y mwyafrif hefyd yn teimlo bod apeliadau yn cael eu trin yn briodol, ond roedd y rheiny â sgôr nad oedd wedi newid yn teimlo'n llai bodlon. Roedd y rhan fwyaf o weithredwyr busnesau bwyd yn teimlo bod y broses apelio'n deg. Fodd bynnag, roedd traean o'r farn nad oedd y broses yn ddiduedd gan fod yr un awdurdod lleol a ddyfarnodd y sgôr hefyd yn pennu'r apêl, ac nid trydydd parti annibynnol.

7.9 Am yr ail flwyddyn yn olynol, cafodd pryderon am ddiffyg hyder yn y broses apelio eu nodi gan Gymdeithas Lletygarwch Prydain, a theimlai cynrychiolwyr Cymdeithas Manwerthwyr Prydain y dylai'r broses fod yn fwy cadarn. Roedd y ddau grŵp o'r farn y byddai panel neu gorff annibynnol yn fwy gwrthrychol wrth bennu apeliadau. Awgrymwyd y dylid sefydlu panel apeliadau neu grŵp llywodraethu er mwyn pennu apeliadau, neu y dylid defnyddio archwilwyr achrededig trydydd parti i bennu apeliadau.

7.10 Nododd oddeutu hanner yr ymatebwyr nad oeddent yn barod i gwyno gan eu bod yn anfodlon â'r broses apelio, ac yn teimlo y gallai fod yn niweidiol i arolygiadau yn y dyfodol.

7.11 Yn gyffredinol, mae canfyddiadau'n nodi y dylid gwella a chryfhau'r wybodaeth a'r mesurau diogelu y mae awdurdodau lleol yn eu darparu i weithredwyr

busnesau bwyd. Mae'n glir bod elfen o ddryswch o hyd ynghylch y tri mesur diogelu, a bod hon yn broblem amlwg i weithredwyr busnesau bwyd nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf.

## 8. Cysondeb

8.1 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i sicrhau y caiff sgoriau hylendid bwyd eu hasesu yn deg ac yn gyson. Mae hyn yn bwysig er mwyn cynnal hygrededd y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

8.2 Yn 2013, sefydlwyd Grŵp Llywio Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cymru gyda chynrychiolaeth o awdurdodau lleol ledled Cymru. Mae'r Grŵp yn cwrdd yn chwarterol ac yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a'r ASB. Yn y cyfarfodydd hyn, mae'r Grŵp yn trafod materion yn ymwneud â pholisi, gweithredu'r cynllun a chysondeb.

8.3 Mae rhaglen helaeth o hyfforddiant cysondeb wedi'i chynnal gyda swyddogion ledled Cymru. Am y drydedd flwyddyn yn olynol, mae'r rhaglen hon wedi'i harwain gan Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd o Gyngor Sir Powys, gyda chefnogaeth gan yr ASB. Cynhaliwyd chwe chwrs rhwng 28 Tachwedd 2015 a 27 Tachwedd 2016, gyda mwy na 215 o swyddogion o bob rhan o Gymru yn eu mynychu. Mae’r cyrsiau wedi cynnwys nifer o wahanol senarios ac mae’r gweithdai hyn ac yn cynnwys gwahanol fathau o fusnesau bwyd, oll yn cydymffurfio i wahanol raddau â deddfwriaeth hylendid bwyd.

8.4 Mae swyddogion awdurdodau lleol yng Nghymru hefyd wedi cymryd rhan, am yr eildro, mewn hyfforddiant cysondeb ar-lein a hwyluswyd gan yr ASB. [10] Dyluniwyd yr hyfforddiant hwn i nodi unrhyw feysydd o anghysondeb posibl er mwyn darparu cefnogaeth bellach. Mae'r hyfforddiant, sydd wedi'i anelu at swyddogion awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, yn gofyn i awdurdodau lleol asesu senario â sgôr ddisgwyliedig o '5' (‘Da iawn’). Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau'n nodi bod swyddogion awdurdodau lleol yng Nghymru yn asesu'n gyson, gyda'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru yn asesu'r busnes fel ‘Da’ neu ‘Da iawn’.

8.5 Caiff materion cysondeb hefyd eu trafod gan swyddogion awdurdodau lleol mewn cyfarfodydd tîm, cyfarfodydd cyswllt rhanbarthol, ac yng nghyfarfodydd Panel Arbenigwyr Diogelwch Bwyd Cymru Gyfan a thrwy gysylltiad uniongyrchol â staff o dîm Cefnogi Awdurdodau Lleol yr ASB.

8.6 Yn dilyn arolygiad, mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn defnyddio templed llythyr safonol er mwyn rhoi gwybod i fusnesau am eu sgôr. Mae'r llythyr yn nodi'r rheswm dros roi'r sgôr benodol i'r sefydliad, manylion y camau gweithredu gofynnol er mwyn cydymffurfio'n gyfreithiol, a'r mesurau diogelu

[10] Ymarfer cysondeb Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

sydd ar gael. Mae'r ASB wedi creu taflen[11] sy'n rhoi rhagor o wybodaeth i fusnesau am y mater hwn.

8.7 Ar 7 Hydref 2016, daeth Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Gogledd Iwerddon) 2016 i rym. Mae'r trefniadau apelio yn gyson â’r rheiny sydd ar waith yng Nghymru.

8.8 Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae'n rhaid ystyried unrhyw apêl gan swyddog awdurdodedig nad oedd yn rhan o'r broses asesu wreiddiol.

8.9 Mae'r cyfnod amser sydd gan weithredwyr busnesau bwyd i apelio bellach yn gyson ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn sgil diwygio Safon y Brand yn Lloegr ym mis Hydref 2016, cafodd y cyfnod amser gwreiddiol o 14 diwrnod o ddyddiad cyflwyno'r apêl ei ymestyn i 21 diwrnod, er mwyn ei alinio â gofynion statudol Cymru a Gogledd Iwerddon.

[11] Mae’n dod yn haws adnabod hylendid bwyd da yng Nghymru

## 9. Argymhellion adroddiad Chwefror 2016

9.1 Ym mis Chwefror 2016, cyflwynodd yr ASB dri argymhelliad yn ei adroddiad ar adolygu'r system apelio. Mae'r adran hon yn ystyried sut yr aethpwyd i'r afael â'r argymhellion hyn.

9.2 Argymhelliad 1:

*Bod y system bresennol sydd ar waith i alluogi busnesau i apelio yn erbyn eu sgoriau hylendid bwyd yng Nghymru yn parhau ac yn cael ei hadolygu mewn 12 mis, yn unol â'r Ddeddf.*

Ymateb:

Cynhaliwyd y system rhwng 28 Tachwedd 2015 a 27 Tachwedd 2016, heb newidiadau i'r ffordd y caiff ei gweithredu. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau, ac yn cyflwyno argymhellion, yn sgil adolygu'r broses yn ystod y cyfnod hwnnw.

9.3 Argymhelliad 2:

*Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod pob swyddog sy'n sgorio busnesau bwyd o dan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo cysondeb, gan gynnwys pennu apeliadau.*

Ymateb:

Mae materion yn ymwneud â chysondeb yn parhau i fod yn destun trafod yng nghyfarfodydd Grŵp Llywio Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cymru. Caiff materion cysondeb hefyd eu trafod gan swyddogion awdurdodau lleol mewn cyfarfodydd tîm, cyfarfodydd cyswllt rhanbarthol, ac yng nghyfarfodydd Panel Arbenigwyr Diogelwch Bwyd Cymru Gyfan a thrwy gysylltiad uniongyrchol â staff o dîm Cefnogi Awdurdodau Lleol yr ASB.

Am y drydedd flwyddyn yn olynol, cynhaliwyd rhaglen hyfforddiant cysondeb ar gyfer swyddogion ledled Cymru, a ariannwyd gan yr ASB. Roedd chwe gweithdy yn rhan o'r rhaglen, gyda 215 o swyddogion yn eu mynychu. Mae’r cyrsiau wedi cynnwys nifer o wahanol senarios ac mae’r gweithdai hyn wedi mynd i’r afael â gwahanol fathau o fusnesau bwyd, oll yn cydymffurfio i wahanol raddau â deddfwriaeth hylendid bwyd, a phenderfynu ar apeliadau. Cymerodd swyddogion yng Nghymru ran mewn ymarfer cysondeb cenedlaethol ar gyfer swyddogion awdurdodau lleol Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a drefnwyd gan yr ASB.

9.4 Argymhelliad 3:

*Dylai awdurdodau lleol a'r ASB gydweithio er mwyn arwain gweithredwyr busnesau bwyd at wybodaeth berthnasol yn fwy effeithiol o ran y mesurau*

*diogelu sydd ar gael iddynt os nad ydynt yn fodlon â'r sgoriau hylendid bwyd a roddwyd i'w busnesau. Dylai hyn gynnwys manylion y broses apelio.*

Ymateb:

Cafodd templed y llythyr hysbysu safonol ei newid gan aelodau'r Panel Arbenigwyr Diogelwch Bwyd er mwyn rhoi gwybodaeth gliriach i weithredwyr busnesau bwyd am fesurau diogelu, gan gynnwys apeliadau.

Mae'r ASB wedi creu taflen wybodaeth i fusnesau o'r enw "Mesurau diogelu i fusnesau yng Nghymru", a gofynwyd i awdurdodau lleol ei defnyddio wrth gyfathrebu â busnesau.

# 10. Casgliadau

10.1 Mae'r adolygiad hwn wedi canfod fod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn gweithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn unol â'r Ddeddf a'r canllawiau statudol. Mae'r arolygiad wedi canfod nifer bach o achosion (oddeutu 7%) lle nad oedd awdurdodau lleol bob tro yn bodloni'r gofynion o ran yr amser i bennu apêl.

10.2 Mae'r data yn dangos cynnydd yn y defnydd o'r system apelio gan fusnesau sydd â sgôr o '3' a '4' (35.7% o'r holl apeliadau yn 2014/15 i 46.3% yn 2015/16). Mae hyn yn dangos pwysigrwydd sgôr hylendid bwyd dda.

10.3 Mae nifer yr apeliadau a dderbyniwyd rhwng 28 Tachwedd 2015 a 27 Tachwedd 2016 yn gyson â nifer y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae adborth gan fusnesau bwyd wedi nodi bod yr angen i ddarparu gwybodaeth gliriach am y mesurau diogelu sydd ar gael i weithredwyr busnesau bwyd yn parhau, gan gynnwys gwybodaeth am y broses ac ar ba sail y gellir cyflwyno apêl. Mae ymchwil yn dangos bod hwn yn hynod o berthnasol i weithredwyr busnesau bwyd nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf.

10.4 Mae canfyddiadau ymchwil gan fusnesau unigol ac adborth gan gynrychiolwyr busnesau wedi amlygu y byddai'n well ganddynt system apelio lle mae awdurdod lleol gwahanol i'r un a ddyfarnodd y sgôr yn pennu'r apeliadau. Mae canfyddiad nad yw'r system bresennol ar gyfer pennu'r apeliadau yn ddigon annibynnol. Mae'r ffaith bod sgoriau wedi newid yn dilyn apeliadau yn darparu peth tystiolaeth bod y broses yn un annibynnol. Fodd bynnag, bydd y broses yn cael ei hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau nad yw'r sefyllfa yn newid.

# 11. Argymhellion

9.1 Mae'r ASB yn gwneud yr argymhellion canlynol:

***Argymhelliad 1:***

**Bod y system bresennol sydd ar waith i alluogi busnesau i apelio yn erbyn eu sgoriau hylendid bwyd yng Nghymru yn parhau ac yn cael ei hadolygu mewn 12 mis, yn unol â Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru).**

***Argymhelliad 2:***

**Dylai awdurdodau lleol sichrau y caiff pob apêl ei phennu o fewn 21 diwrnod wedi iddi ddod i law a'u bod yn rhoi gwybod i weithredwyr busnesau bwyd a'r ASB o fewn y cyfnod hwn hefyd. Lle bydd oedi wedi bod yn y broses, dylai'r ASB ganfod y rhesymau dros yr oedi ac atgoffa awdurdodau lleol o'u hymrwymiadau.**

***Argymhelliad 3:***

**Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod pob swyddog sy'n sgorio busnesau bwyd o dan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo cysondeb gan gynnwys pennu apeliadau. Dylai'r ASB barhau i gefnogi awdurdodau lleol wrth gynnal y gweithgarwch hwn.**

***Argymhelliad 4:***

**Dylai'r ASB barhau i gydweithio ag awdurdodau lleol, busnesau bwyd a'u cynrychiolwyr er mwyn codi ymwybyddiaeth gweithredwyr busnesau bwyd o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd gan gynnwys sut y caiff sgoriau eu pennu, y broses apelio a'r hawl i ymateb. Dylid ystyried y modd y mae cyfathrebu â gweithredwyr busnesau bwyd nad ydynt yn siarad Saesneg fel**